# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 3

GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

*Cyngor a chynhorthwy*

### 69 Cyngor a chynhorthwy mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth

(1) Caiff GCC roi cyngor neu gynhorthwy arall (gan gynnwys grantiau) i unrhyw berson sy’n darparu gwasanaeth gofal a chymorth at ddiben annog gwelliant yn y ddarpariaeth o’r gwasanaeth hwnnw.

(2) Caiff GCC atodi unrhyw amodau i grant a roddir o dan is-adran (1) sy’n briodol yn ei farn ef.

(3) Ystyr “gwasanaeth gofal a chymorth” yw—

(a) gwasanaeth rheoleiddiedig, neu

(b) unrhyw wasanaeth arall yng Nghymru sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth o ofal a chymorth gan weithwyr gofal cymdeithasol.

(4) Gweler adran 2 am ystyr “gwasanaeth rheoleiddiedig” ac adran 3 am ystyr “gofal a chymorth”.

### 70 Astudiaethau o ran darbodaeth, effeithlonrwydd etc.

Caiff GCC hybu neu gynnal astudiaethau cymharol neu astudiaethau eraill sydd wedi eu dylunio er mwyn ei alluogi i wneud argymhellion o dan adran 69 ar gyfer gwella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y ddarpariaeth o wasanaeth gofal a chymorth.